Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

18.6.2019

Annwyl Riant/Gwarcheidwad, **Dear Parent/Guardian,**

Diolch ichi, yn y man cyntaf, am ddewis Ysgol Bro Pedr ar gyfer eich plentyn chi. Mae wedi bod yn bleser croesawu'r darpar ddisgyblion Blwyddyn 7 i'r Ysgol yn ystod y diwrnodau Pontio ac rwy'n hyderus y byddant yn mwynhau eu hamser yn yr Ysgol o Fedi 2019 ymlaen. Mae gan yr Ysgol lawer iawn i'w gynnig a gobeithiaf, yn ddiffuant, y bydd eich plentyn yn manteisio ar y myrdd o gyfleoedd cwricwlaidd ac allgyrsiol sydd ar gael.

Rwy'n llwyr ystyried bod camu o'r cynradd i'r uwchradd yn garreg filltir bwysig i bob disgybl ac mae symud o'r cyfarwydd i'r anghyfarwydd yn gallu bod yn brofiad y mae plentyn unarddeg oed yn gallu teimlo ychydig yn betrusgar yn ei gylch. Fel Ysgol, rydym yn addo y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu er mwyn galluogi eich plentyn i ymgartrefu yma ym Mro Pedr. Fe fydd Mrs Rhian Morris, Pennaeth Pontio a Blwyddyn 7, a'r tîm o diwtoriaid dosbarth Blwyddyn 7 yn bwyntiau cyswllt uniongyrchol ar gyfer y disgyblion a chofiwch gysylltu yn syth os rydych yn poeni am unrhyw agwedd. Mae Hafan yr Ysgol hefyd yn le diogel ble mae disgyblion yn gallu rhannu unrhyw bryderon.

Edrychaf ymlaen at eich cyfarfod yn ystod y Bore Rhagarweiniol ar Ddydd Mawrth, Gorffennaf y 9fed. Yn y cyfamser, cofiwch gysylltu os mae gennych unrhyw gwestiynau/ymholiadau pellach.

Mae'r holl wybodaeth bwysig i ddarpar rieni ar wefan yr Ysgol: www.bropedr.ceredigion.sch.uk/ o dan 'Pecyn Gwybodaeth Blwyddyn 6'.

oOo

Thank you, in the first instance, for choosing Ysgol Bro Pedr for your child. It's been a pleasure welcoming the prospective Year 7 pupils to the school during the transition days and I am confident that they will enjoy their time at the School from September 2019 onwards. The School has a great deal to offer and I sincerely hope that your child will immerse himself/herself in the wide array of curricular and extra-curricular opportunities available.

I am well aware that stepping from the primary to the secondary is an important milestone for every pupil and that stepping from the familiar to the unfamiliar can be an experience that an eleven year old child can feel rather worried about. As a School, we promise that we will do everything within our power to help your child settle at Bro Pedr. Mrs Rhian Morris, Head of Year 7 and Transition, and the team of Year 7 tutors will be direct points of contact for the pupils and remember to contact us immediately if you are concerned about any aspect. The School's Hafan is also a safe place where pupils can share any concerns.

I look forward to welcoming you to the Induction Morning on Tuesday, 9th of July. In the meantime, please contact us if you have any further questions / enquiries.

Important information for prospective parents can be found on the school website: www.bropedr.ceredigion.sch.uk/ under 'Year 6 Information Pack'.

Yr eiddoch yn gywir/Yours sincerely,



Jane Wyn.
Pennaeth/Headteacher

Pennaeth – Mrs Jane Wyn MA – Headteacher
Ysgol Bro Pedr, Teras Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7BX
01570 422214
gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk
http://bropedr.ceredigion.sch.uk